



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad dilynol o godio clinigol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1175A2019-20



Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Philip Jones.

Cynnwys

Mae codio'n dal i fod yn flaenoriaeth isel i'r Bwrdd lechyd ac mae diffyg cydymffurfio â'r targed cyflawnrwydd yn effeithio ar welliant ar y cyfan mewn cywirdeb ac ym morâl staff. Mae'r defnydd o ddata wedi'i godio fel gwybodaeth fusnes yn dal i fod heb ddatblygu digon ac mae cryn dipyn o le o hyd i wneud cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol.

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	5
Mae cyfran y cyfnodau a godiwyd o fewn mis i'w dyddiad terfyn yn is na'r targed ac mae tystiolaeth bod pwysau i glirio'r ôl-groniad yn effeithio ar welliant ar y cyfan mewn cywirdeb ac yn lleihau morâl staff	6
Er gwaethaf ymwybyddiaeth gyffredinol o'r materion sy'n gysylltiedig â pherfformiad codio clinigol, mae'n dal i fod yn flaenoriaeth isel ac mae'r defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer gwybodaeth fusnes yn dal i fod heb ddatblygu digon	8
Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn argymhellion archwilio blaenorol ac mae gofyn rhoi sylw sylweddol i nifer o faterion	10
Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith	12
Atodiadau	
Atodiad 1 – Cynnydd y Bwrdd lechyd yn erbyn ein hargymhellion yn 2014	14
Atodiad 2 – Canlyniadau'r arolwg o Aelodau'r Bwrdd	22

Cyflwyniad

- 1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol¹.
- 2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG, ac fe'i defnyddir i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.
- 3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.
- 4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.
- 5 Canfuom hefyd fod cyrrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt. Yn ogystal â hynny, nid oedd holl gyrrff y GIG yn deall pwysigrwydd codio clinigol i'w busnes o ddydd i ddydd.
- 6 Ym mis Ebrill 2014, fe gyhoeddodd ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: 'Mae codio clinigol yn flaenoriaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sy'n cefnogi'r gwaith drwy lefel dda o fuddsoddiad. Er bod y gwaith yn canolbwyntio ar wella ansawdd rheoli gwybodaeth, mae angen rhagor o welliannau i arferion lleol'. Yn fwy penodol canfuom fel a ganlyn:
 - roedd y bwrdd iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol i gefnogi gweithredu effeithiol y busnes, ond roedd angen gwneud mwy i godi proffil cofnodion meddygol a chanolbwyntio ar gywirdeb;
 - roedd sawl agwedd ar y broses codio clinigol yn gadarn, ond roedd ymgysylltu clinigol yn ddiffygiol weithiau, roedd cofnodion meddygol yn wael yn aml ac roedd yn cymryd llawer o amser i godio rhai cofnodion; ac

¹ Ar gyfer diagnosisau, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- roedd data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio'n briodol yn unol â safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer prydlondeb a chyflawnrwydd, ond roedd rhywfaint o'r data codio yn anghywir ac nid oedd y Bwrdd yn ymwybodol o'r gwallau na'u goblygiadau.
- 7 Fe wnaethom nifer o argymhellion, a oedd yn canolbwyntio ar yr angen i:
- wella'r broses o reoli cofnodion meddygol;
 - cryfhau adnoddau codio clinigol;
 - datblygu'r ymgysylltu â'r Bwrdd ac adnoddau ymhellach; a
 - chryfhau ymgysylltiad â staff meddygol.
- 8 Fel rhan o Gynllun Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 2018, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr [Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014](#) ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny:
- 9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:
- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
 - gofyn i'r Bwrdd Iechyd hunanasesu ei gynnydd hyd yma;
 - dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
 - ceisio barn aelodau'r bwrdd² ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
 - cyfweld â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae [Atodiad 1](#) yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

Ein canfyddiadau


- 11 Ein casgliad yw bod codio'n dal i fod yn flaenoriaeth isel i'r Bwrdd Iechyd ac mae diffyg cydymffurfio â'r targed cyflawnrwydd yn effeithio ar welliant ar y cyfan mewn cywirdeb ac ym morâl staff. Mae'r defnydd o ddata wedi'i godio fel gwybodaeth fusnes yn dal i fod heb ddatblygu digon ac mae cryn dipyn o le o hyd i wneud cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol.

² Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o 20 ymateb allan o 30 o ymatebion posibl.

Mae cyfran y cyfnodau a godiwyd o fewn mis i'w dyddiad terfyn yn is na'r targed ac mae tystiolaeth bod pwysau i glirio'r ôl-groniad yn effeithio ar welliant ar y cyfan mewn cywirdeb ac yn lleihau morâl staff

- 12 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.
- 13 Bob blwyddyn, mae cyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd**. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbytai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel yn flaenorol. Dengys **Arddangosyn 1** fod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gyson islaw'r targed cyflawnrwydd o 95% ac wedi bod yn gyfnewidiol iawn (gan amrywio rhwng 66.7% ym mis Chwefror 2017 ac 84.1% ym mis Rhagfyr 2018). Mae prif achos y cyfnewidioldeb yn gysylltiedig â gostyngiad yn nifer y codyddion Band 3 a 4 cyfwerth ag amser llawn a chynnydd o un flwyddyn i'r llall yn bennaf mewn cyfnodau gorffenedig meddygon ymgynghorol (FCEs).


Arddangosyn 1: y ganran o'r holl gyfnodau a godiwyd o fewn un mis i'r dyddiad terfyn



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru

- 14 Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnwn ni am y sefyllfa o ran yr ôl-groniad ym mis Mawrth 2018. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo ôl-groniad sylweddol o 6.25% (8,469) o gyfnodau gorffenedig meddygon ymgynghorol. Mae'r ôl-groniad wedi parhau i dyfu dros y tair blynedd ddiwethaf. Y Bwrdd Iechyd yw'r trydydd uchaf ymhlith cyrff iechyd Cymru ar hyn o bryd o ran ôl-groniad codio (y tu ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).
- 15 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol. Maent yn gwneud hyn trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio a gwirio'r wybodaeth yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion i asesu cywirdeb. Mae disgwyl i gyrrff y GIG ddangos gwelliant blynyddol yn eu cywirdeb o un flwyddyn i'r llall. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, dengys **Arddangosyn 2** fod cywirdeb wedi gwella (cafodd 89.7% o'r episodau a samplwyd eu codio'n gywir yn 2018-19 o'i gymharu ag 83.7% yn 2014-15). Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant ar lefel y Bwrdd Iechyd wedi bod mor dda ag yng Nghymru gyfan: yn 2017-18 (cafodd 92.3% o'r episodau a samplwyd eu codio'n gywir yn 2018-19). Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn nodi bod 'canlyniadau'r archwiliad ar y cyfan yn cadarnhau bod staff codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni cywirdeb uwch nag a argymhellir ar gyfer codio diagnosis eilaidd, triniaeth sylfaenol a thriniaeth eilaidd, ond wedi methu â chyflawni'r cywirdeb a argymhellir ar gyfer codio diagnosis sylfaenol'.

Arddangosyn 2: canran y cyfnodau a godiwyd yn gywir



Ffynhonnell: Canlyniadau adolygiadau o gywirdeb codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2014-2019

* Sylwer, oherwydd capasiti o fewn tîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, bod adolygiad sengl o gywirdeb wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau 2015-16 a 2016-17.

- 16 Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru hefyd yn nodi fel a ganlyn: 'i gyrraedd targedau cwblhau Llywodraeth Cymru mae tuedd fwriadol o hyd i aseinio codau dosbarthu cyn gynted â phosibl ar ôl rhyddhau', a 'heb gyfeirio at y cofnod meddygol llawn a/neu heb grynodedb rhyddhau cywir a chyflawn'. Ar ben hynny, 'mae nifer y gwallau a'r math o wallau a ganfuwyd yn yr archwiliad yn dynodi bod y codyddion clinigol yn Hywel Dda yn rhuthro i gwblhau'r broses codio clinigol', sy'n arwain at wallau er bod yr wybodaeth gywir ar gael yn y cofnod meddygol.
- 17 Dywedodd staff codio wrthym fod y pwysau parhaus i glirio'r ôl-groniad a'r effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar agweddau eraill ar godio yn cael effaith sylweddol ar forâl staff.

Er gwaethaf ymwybyddiaeth gyffredinol o'r materion sy'n gysylltiedig â pherfformiad codio clinigol, mae'n dal i fod yn flaenoriaeth isel ac mae'r defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer wybodaeth fusnes yn dal i fod heb ddatblygu digon

- 18 Yn flaenorol, canfuom nad oedd pob un o gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes a'u bod yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth. Er enghraifft, i gynllunio a monitro gwasanaethau, lle gellir defnyddio codio i:
- asesu nifer y cleifion sy'n dilyn llwybrau clinigol; a
 - darparu data cymharol ynghylch gweithgarwch i arfarnu cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.
- 19 Er bod gan godio clinigol yn y Bwrdd lechyd broffil uwch o lawer erbyn hyn o ran ymwybyddiaeth, canfuom ei fod yn dal yn flaenoriaeth isel. Dywedodd nifer o aelodau o'r bwrdd eu bod yn cydnabod bod angen buddsoddi'n fwy ynddo, ond bod codio clinigol mewn cystadleuaeth ffyrnig gyda blaenoriaethau eraill.
- 20 Mae materion codio clinigol yn cael eu codi'n rheolaidd ac mewn ffordd gynhwysfawr mewn fforymau ar lefel uwch, gan gynnwys:
- Cyfarfodydd y Tîm Gweithredol, er enghraifft cyflwynwyd adroddiad diweddarar ar godio clinigol ym mis Ionawr 2018;
 - Cyfarfodydd Bwrdd, gydag adroddiadau ar berfformiad gan gynnwys y ganran cywirdeb codio clinigol a gyflawnwyd yn rhaglen archwilio cywirdeb codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru;
 - Cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes, Cynllunio a Sicrwydd Perfformiad, gyda'r targed Haen 1 ar gyfer cwblhau gwaith codio clinigol wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig ochr yn ochr ag esboniad o'r sefyllfa a'r heriau ar hyn o bryd; yr hyn sy'n cael ei wneud; pryd a faint o

welliant ellir ei ddisgwyl; a sut y bydd hyn yn effeithio ar gleifion a chyllid; a hefyd

- Cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, gyda'r is-bwyllgor deufisol hwn yn fforwm allweddol ar gyfer sicrwydd ynghylch materion codio trwy adroddiadau a diweddariadau rheolaidd ar godio clinigol.

- 21 Mae'r strwythur rheoli ac atebolrwydd proffesiynol ar gyfer codio clinigol wedi cael eu cryfhau ers ein hadolygiad blaenorol. Y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth godio ac mae wedi amlygu mai un o'r heriau sylfaenol ar gyfer codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd yw lefel y diffyg staffio mewn perthynas â gweithgarwch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif ei fod rhwng pump a chwe chodydd clinigol yn brin. Mae hyn yn seiliedig ar nifer y staff presennol, lefelau gweithgarwch sydd wedi cynyddu tua 36,000 cyfnod gorffenedig meddygon ymgynghorol ers llunio'r argymhellion blaenorol, a normau proffesiynol ar gyfer gweithgarwch codyddion clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dewis peidio â buddsoddi yn y swyddogaeth oherwydd cyfyngiadau ariannol a blaenoriaethau eraill sydd mewn cystadleuaeth. Hefyd, mae capasiti goruchwyliol yn llai oherwydd salwch hirdymor. Mae rheolwyr a thimau codio clinigol wedi ystyried a gweithredu ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Fodd bynnag, mae'r ôl-groniad wedi parhau i dyfu dros amser ac mae'r pwysau o ganlyniad i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwnnw yn effeithio ar ansawdd codio.
- 22 Er bod ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chodio clinigol lawer yn uwch, mae'r defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer gwybodaeth fusnes yn dal heb ddatblygu digon. Mae trafodaeth yn mynd rhagddi yn y Bwrdd Iechyd ynglŷn â natur a maint y buddsoddiad mewn datrysiadau digidol ar gyfer codio clinigol ond nid oes consensws clir ynglŷn â sut y gellir bwrw ymlaen â hyn. Serch hynny, mae nifer o aelodau o'r bwrdd yn cydnabod bod angen buddsoddi mewn datrysiadau technolegol yn y maes hwn.
- 23 Gall datrysiadau digidol ar gyfer codio clinigol ddwyn manteision sylweddol mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, fel rhan o'u strategaeth ddigidol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi sicrhau buddsoddiad ar gyfer moderneiddio'r broses o olrhain nodiadau achosion gyda system olrhain ffeiliau Adnabod Amledd Radio (RFID). Bydd y prosiect yn rhoi datrysiad RFID ar waith er mwyn amcanu at wella problemau clinigol a logistaidd cofnod iechyd papur gan hefyd foderneiddio a gwella'r gwasanaeth y mae'r adran Cofnodion Iechyd yn ei ddarparu. Bydd y datrysiad yn darparu tagiau RFID ar gyfer cofnodion aciwt a system Ffeilio ar sail Lleoliad gan ddefnyddio cyfleuster sganio bar cod a'r gallu i adnabod lleoliad cofnodion â synwryddion sefydlog. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i gofnodion gael eu holrhain, eu canfod a'u darparu yn rhwydd pan fo angen.
- 24 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yng nghramau cynnar iawn proses i fabwysiadu gofal iechyd seiliedig ar werthoedd. Mae papur a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Abertawe wedi cael ei gytuno a bydd yn cael ei gyllido am ddwy flynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn arwain gofal iechyd

seiliedig ar werthoedd mewn perthynas â llwybr yr ysgyfaint ond mae'n cydnabod bod diffyg data ar ddeilliannau a chostau ar hyn o bryd, y mae'r ail o'r rhain yn gysylltiedig â chodio clinigol. Mae angen yr wybodaeth hon er mwyn symud gofal iechyd seiliedig ar werthoedd ymlaen ar draws arbenigeddau a llwybrau eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn argymhellion archwilio blaenorol ac mae gofyn rhoi sylw sylweddol i nifer o faterion

25 Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

Arddangosyn 3: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'u disodli
15	4	6	5	-

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 26 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014, ond mae llawer o argymhellion yn dal heb eu rhoi ar waith neu'n hwyr yn cael eu rhoi ar waith.
- 27 Mae'r berthynas rhwng y timau codio clinigol a staff cofnodion meddygol wedi gwella. Fodd bynnag, mae safon nodiadau achosion wedi gwaethgu ers ein gwaith blaenorol. Mae gan y tîm codio clinigol rôl hanfodol o ran amlygu'r mater hwn. Ychydig o berchnogaeth ar gofnodion a ffolderi meddygol sydd ar lefel wardiau ac mae olrhain cofnodion meddygol yn dal i fod yn broblem. Mae cleifion yn symud mwy o amgylch y Bwrdd Iechyd oherwydd mwy o arbenigedd clinigol, yn ogystal ag arosiadau byrrach. Mae hyn yn ychwanegu at her cadw nodiadau yn unol â safonau proffesiynol, a her trefnu eu bod ar gael pan fo'u hangen. Mae defnydd o ffeiliau dros dro yn dal i fod yn broblem. Mae'r Grŵp Cofnodion Iechyd wedi cael gorchwyl i fynd i'r afael â'r materion hyn, y gwnaed argymhellion yn eu cylch mewn adolygiadau mewnol eraill hefyd.
- 28 Cafodd strwythur rheoli codio clinigol ei gryfhau ar ôl ein hadroddiad blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys penodi Rheolwr Codio Clinigol â chyfrifoldeb am yr holl dimau codio a dau oruchwylydd timau codio. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wedi cael eu gwanhau gan absenoldeb maith un o'r goruchwylwyr oherwydd salwch, ac er gwaethaf trefniadau lliniarol a gyflwynwyd.
- 29 Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r bwrdd i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd codio clinigol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am berfformiad codio fel rhan o'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Mae'r Bwrdd wedi cael copi o adroddiad Gwasanaeth

Gwybodeg GIG Cymru ar gywirdeb codio clinigol yn flaenorol. Mae gwybodaeth am gywirdeb codio yn cael ei darparu'n rheolaidd ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth hefyd.

- 30 Nid oes gan staff meddygol raglen strwythuredig o hyfforddiant mewn perthynas â chodio clinigol. Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth gyda thimau arbenigeddau ar sail ad hoc. Mae uwch aelodau o staff y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant codio clinigol i staff meddygol ac yn cydnabod bod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn annigonol. Arferid cynnwys cyflwyniad i godio clinigol fod yn y broses sefydlu ar gyfer staff meddygol newydd, ond nid yw'n glir a yw hyn yn wir o hyd.
- 31 Roedd cyflwyniad PowerPoint ar godio clinigol ar fin cael ei e-bostio at yr holl feddygon ymgynghorol ar adeg ein gwaith maes. Roedd hwn yn mynd i gynnwys 'Deg Awgrym Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer codio – canllaw ar gyfer staff clinigol'. Digwyddiad unigol oedd hwn ac nid oes gweithgareddau parhaus i hyrwyddo safonau. Dywedodd codyddion fod staff meddygol yn wael am ateb gofynion codio clinigol ar y cyfan ac mae ansawdd crynodebau rhyddhau yn arbennig o wael. Hefyd, nid oes tystiolaeth o gynnwys clinigwyr yn rheolaidd yn y broses o ddilysu'r defnydd o godau clinigol.

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

- 32 Wrth wneud y gwaith hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ychwanegol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith neu sy'n hwyr yn cael eu rhoi ar waith

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto

Rheoli Cofnodion Meddygol

- A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad iddynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:
- a) gwella ymgysylltu rhwng y tîm cofnodion meddygol a'r tîm codio clinigol.
 - b) dileu'r defnydd o gofnodion dros dro, gan gynnwys cloriau plastig a sicrhau bod ffeiliau'n cael eu rhoi ym mhrif gofnod y claf.
 - c) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ledled y bwrdd iechyd.
 - d) darparu hyfforddiant ar gyfer clerod wardiau ac aelodau eraill o staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau ar gyfer cofnodion meddygol.
 - e) gwella cydymffurfiaeth ag adnodd olrhain cofnodion System Gweinyddu Cleifion Myrddin.

Adnoddau Codio Clinigol

- A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:
- b) ehangu'r amrywiaeth o systemau gwybodaeth glinigol sydd ar gael i godyddion, gan gynnwys y system ar gyfer theatrau llawdriniaeth.
 - c) sicrhau bod yr holl staff yn derbyn adborth cyson ar faterion a godwyd drwy ddilysu ac archwilio o bob safle.

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto

Ymgysylltu â'r Bwrdd

- A3 Datblygu'r ymgysylltu da sydd eisoes ar waith â'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a'r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys:
- b) darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth aelodau'r bwrdd o godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad, ac eithrio data marwolaethau.

Ymgysylltu â Staff Meddygol

- A4 Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses godio clinigol yn cael ei chydabod. Dylai hyn gynnwys:
- a) sefydlu dull cyson o hyfforddiant codio clinigol ar gyfer staff meddygol ledled y bwrdd iechyd.
 - b) atgyfnerthu'r pwysigrwydd o gwblhau crynodebau rhyddhau cleifion yn brydlon.
 - c) gwella ymgysylltu clinigol â'r broses o ddilysu data clinigol wedi'i godio.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 1

Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Arddangosyn 5: asesu cynnydd

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Rheoli Cofnodion Clinigol			
A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad iddynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:			
a) gwella ymgysylltu rhwng y tîm cofnodion meddygol a'r tîm codio clinigol.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar gyfer Cofnodion Iechyd	Ar y gweill	<p>Dywedodd staff codio clinigol fod ganddynt berthnasoedd da â staff cofnodion iechyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Cyfarfu'r Rheolwr Codio Clinigol â Rheolwr Cofnodion Iechyd Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar i drafod y prosesau sydd ar waith rhwng staff cofnodion iechyd a chodio clinigol. Roeddent yn fodlon eu bod yn gweithio'n dda.</p> <p>Mae staff codio clinigol yn tynnu'r rhan fwyaf o nodiadau achosion o'r llyfrgelloedd ffeilio yn Ysbyty Glangwili, Ysbyty'r Tywysog Philip, ac Ysbyty Bronglais. Gall staff codio yn Ysbyty Llwynhelyg ofyn i staff cofnodion iechyd yn Ysbyty'r Tywysog Philip dynnu nodiadau i'w hanfon i'r safle perthnasol ar gyfer codio.</p> <p>Cyfyngwyd ar fynediad at y llyfrgell cofnodion iechyd yn Ysbyty Llwynhelyg yn sgîl cyflwyno cleon. Mae gan godyddion clinigol fynediad ond rhaid iddynt ganu cloch i gael mynediad. Mae hyn yn arafu'r broses o adfer nodiadau achosion.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Busnes, Cynllunio a Pherfformiad yn bwriadu cryfhau'r Grŵp Cofnodion Iechyd i ddarparu ffocws ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion iechyd yn effeithiol.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
b) dileu'r defnydd o gofnodion dros dro, gan gynnwys cloriau plastig a sicrhau bod ffeiliau'n cael eu rhoi ym mhrif gofnod y claf.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar gyfer Cofnodion Iechyd	Hwyr	Mae nodiadau dros dro ac amlenni plastig yn dal i gael eu defnyddio ar draws y sefydliad. Roedd ymateb hunanasesu'r Bwrdd Iechyd yn dynodi nad yw'r niferoedd sy'n cyrraedd swyddfeydd codio'n uchel. Fodd bynnag, dywedodd codyddion clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd wrthym fod y sefyllfa wedi dirywio dros y cyfnod ers ein hadolygiad diwethaf. Bu dirywiad o ran trefnu a chynnal ffolderi nodiadau achosion cleifion unigol a chyflwr y ffolderi hyn am bod cleifion yn symud mwy o amgylch y Bwrdd Iechyd ac yn cael arosiadau byrrach. Mae'r ddau ffactor yn ychwanegu at her sicrhau bod y nodiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r safonau, a'u bod ar gael pan fo'u hangen ar dimau codio clinigol yn ogystal â chlinigwyr. Rhoddir nodyn yn Medicode pryd bynnag y defnyddir amlen blastig fel ffynhonnell ar gyfer codio. Os cynhelir archwiliad o'r nodyn achos llawn yn ddiweddarach, yna bydd baner i ddynodi nad oedd ar gael ar adeg codio.
c) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ledled y bwrdd iechyd.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar gyfer Cofnodion Iechyd	Ar y gweill	Roedd cyflwyniad PowerPoint ar godio clinigol ar fin cael ei e-bostio at yr holl feddygon ymgynghorol ar adeg ein gwaith maes. Roedd hwn yn mynd i gynnwys 'Deg Awgrym Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer codio – canllaw ar gyfer staff clinigol'. Digwyddiad unigol oedd hwn ac nid oes gweithgareddau parhaus i hyrwyddo safonau.
d) darparu hyfforddiant ar gyfer clercod wardiau ac aelodau eraill o staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau ar gyfer cofnodion meddygol.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar	Hwyr	Nid oes rhaglen barhaus o hyfforddiant i sicrhau bod clercod wardiau'n cynnal cofnodion yn unol â safonau proffesiynol. Dywedodd staff codio fod safon ymarfer ymhlith clercod wardiau'n amrywiol iawn, ac nad oes perchnogaeth wirioneddol ar y nodiadau mewn rhai wardiau. Caiff clercod wardiau eu rheoli gan arbenigeddau a wardiau unigol. Mae hyn yn cynyddu'r angen am

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
	gyfer Cofnodion lechyd		gyfathrebu parhaus (gyda staff wardiau yn gyffredinol yn ogystal â chyda chlercod wardiau) am bwysigrwydd cynnal safonau ymarfer ac er mwyn darparu hyfforddiant.
e) gwella cydymffurfiaeth ag adnodd olrhain cofnodion System Gweinyddu Cleifion Myrddin.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar gyfer Cofnodion lechyd	Hwyr	Gofynnir i'r holl dimau codio clinigol olrhain nodiadau achosion yn gywir gan ddefnyddio System Gweinyddu Cleifion Myrddin. Roedd hunanasesiad y Bwrdd lechyd yn dynodi bod hyn wastad yn digwydd, ac eithrio pan fo nodiadau achosion yn cael eu casglu o ward yn y bore ac yn cael eu dychwelyd y prynhawn hwnnw. Fodd bynnag, dynododd staff codio fod olrhain nodiadau achosion yn wael ar y cyfan, ac eithrio yn Ysbyty Llwynhelyg.
f) rhoi camau ar waith i sicrhau bod codyddion yn derbyn cofnodion meddygol cleifion sy'n trosglwyddo i Ysbyty De Sir Benfro yn brydlon, cyn iddynt drosglwyddo.	Wedi'i gynnwys mewn cynllun gweithredu ehangach ar gyfer Cofnodion lechyd	Wedi'i roi ar waith	Mae proses fewnol wedi'i sefydlu i hysbysu'r adran godio am gleifion sy'n mynd i gael eu trosglwyddo i Ysbyty De Sir Benfro (YDSB). Wedyn mae'r nodiadau achosion perthnasol yn cael eu codio cyn bod y claf yn gadael y safle. Mae codydd yn ymweld ag YDSB unwaith y mis i godio unrhyw gyfnodau a hepgorwyd.
Adnoddau Codio Clinigol			
A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:			
a) adolygu trefniadau goruchwylio Ysbyty'r Tywysog Philip i sicrhau nad yw staff yn teimlo'n ynysig.	Hydref 2014	Wedi'i roi ar waith	Mae trefniadau'r timau rheoli codio clinigol wedi cael eu cryfhau ers ein harchwiliad blaenorol. Mae hyn yn cynnwys penodi Rheolwr Codio Clinigol â chyfrifoldeb am yr holl dimau codio a dau oruchwylydd timau codio, y naill yn Ysbyty Llwynhelyg, a'r llall sy'n goruchwylio ym Mronglais, Glangwili ac Ysbyty'r Tywysog Philip. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wedi cael eu gwanhau'n sylweddol gan absenoldeb maith oherwydd salwch y goruchwylydd sy'n

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			gyfrifol am dri safle, ac er gwaethaf cyflwyno trefniadau interim lliniarol. Er bod staff yn Ysbyty'r Tywyso Philip wedi canmol y Rheolwr Codio Clinigol am y cyflenwi y mae ef wedi'i wneud yn bersonol, mae'r sefyllfa wedi effeithio ar eu morâl. Hefyd, nid yw'n ymddangos fel pe bai gan feddygon ymgynghorol ddiddordeb yn y gwaith y maent yn ei wneud.
b) ehangu'r amrywiaeth o systemau gwybodaeth glinigol sydd ar gael i godyddion, gan gynnwys y system ar gyfer theatrau llawdriniaeth.	Mawrth 2015	Ar y gweill	<p>Mae gan y tîm codio clinigol fynediad at y modiwl theatrau llawdriniaeth ar System Gweinyddu Cleifion Cymru. Fodd bynnag, ceir ymarfer clinigol anghyson o ran defnyddio'r modiwl theatrau, swyddogaethau'r SGCC yn gyffredinol, a systemau allweddol eraill sy'n cefnogi'r broses godio fel ChemoCare³ a Phorth Clinigol Cymru.</p> <p>Roedd gwaith wedi dechrau'n ddiweddar i archwilio pa un a oes systemau ychwanegol y gallai'r tîm codio eu defnyddio i gynorthwyo gyda'r broses godio. Roedd yn rhy gynnar i unrhyw ganfyddiadau fod ar gael.</p> <p>Mae ail sgriniau cyfrifiadur yn cael eu darparu'n raddol ar gyfer codyddion clinigol unigol i gynorthwyo gyda'r broses godio a'i chyflymu.</p>

³ System ragnodi electronig arbenigol ar gyfer chemotherapi yw ChemoCare gyda chyfleuster integredig i amserlennu apwyntiadau sydd, gan ddefnyddio cofnod claf unigol, yn darparu'r cofnod meddyginiaeth, gwybodaeth glinigol ac amserlen apwyntiadau sy'n ofynnol ar gyfer rheoli cleifion canser sy'n cael chemotherapi mewn modd diogel.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
c) sicrhau bod yr holl staff yn derbyn adborth cyson ar faterion a godwyd drwy ddilysu ac archwilio o bob safle.	Yn barhaus	Ar y gweill	Nid yw'r un o'r codyddion wedi cymhwyso i archwilio gwaith codio ar hyn o bryd. Yn 2017-18 penderfynwyd trefnu bod goruchwylydd a chodydd yn cynnal archwiliad o 30 o nodiadau achosion bob mis ac yn bwydo'r canlyniadau'n ôl yn uniongyrchol i godyddion unigol. Cafodd y trefniant ei atal fel bod holl adnoddau'r timau codio'n gallu cael eu cyfeirio at glirio'r ôl-groniad codio. Ar adeg ein gwaith maes nid oedd y sefyllfa wedi newid. Mae'r Rheolwr Codio'n cyflawni gwiriadau ansawdd data pan fo amser yn caniatáu. Fodd bynnag, mae wedi bod yn neilltuo cryn dipyn o'i amser i ddarparu presenoldeb ar bob safle i liniaru effaith absenoldeb hirdymor oherwydd salwch un o'r ddau oruchwylydd timau codio.
d) ailystyried pwy sy'n gyfrifol am deipio llythyrau rhyddhau cleifion yn Ysbyty Llwynhelyg i sicrhau nad yw'r ddyletswydd hon yn effeithio ar y broses godio clinigol a'r defnydd o adnoddau codio.	Mawrth 2015	Wedi'i roi ar waith	Nid yw llythyrau rhyddhau'n cael eu teipio gan y tîm codio clinigol yn Ysbyty Llwynhelyg mwyach. Erbyn hyn mae holl amser codyddion yn cael ei dreulio ar godio cyfnodau o ofal.
Ymgysylltu â'r Bwrdd/Adnoddau			
A3 Datblygu'r ymgysylltu da sydd eisoes ar waith â'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a'r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys:			
a) darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth aelodau'r bwrdd o godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd	Mawrth 2015	Hwyr	Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r bwrdd i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd codio clinigol.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
gwybodaeth allweddol am berfformiad, ac eithrio data marwolaethau.			
b) gwella gwybodaeth ar gyfer y bwrdd am gywirdeb codio clinigol.	Mawrth 2015	Wedi'i roi ar waith	Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am berfformiad codio (gweler hefyd baragraff 21) fel rhan o'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Mae'r Bwrdd wedi cael copi o adroddiad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar gywirdeb codio clinigol yn flaenorol. Mae gwybodaeth am gywirdeb codio yn cael ei darparu'n rheolaidd ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth hefyd.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Ymgysylltu â staff meddygol			
A4 Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses godio clinigol yn cael ei chydabod. Dylai hyn gynnwys:			
a) sefydlu dull cyson o hyfforddiant codio clinigol ar gyfer staff meddygol ledled y bwrdd iechyd;	Mawrth 2015	Hwyr	<p>Nid yw staff meddygol yn cael hyfforddiant mewn perthynas â chodio clinigol. Arferid cynnwys cyflwyniad i godio clinigol yn y broses sefydlu ar gyfer staff meddygol iau, ond nid yw'n glir a yw hyn yn dal yn wir.</p> <p>Yn y misoedd cyn ein hadolygiad roedd y Rheolwr Codio Clinigol wedi anfon cyflwyniad PowerPoint ar godio clinigol at y Cyfarwyddwr Meddygol a'r arweinydd clinigol yn y pedwar ystyby gyda chais am adborth, gydag ymatebion amrywiol. Bydd y cyflwyniad yn cael ei e-bostio at yr holl feddygon ymgynghorol a rheolwyr darparu gwasanaethau er gwybodaeth ac i gael adborth pellach.</p> <p>Roedd Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol (meddyg anadlol ymgynghorol) wedi bod yn ei swydd am wyth mis ac mae ganddo ddwy sesiwn yr wythnos i'w neilltuo i faterion gwybodaeth glinigol. Fe hoffai sefydlu digon o adnoddau ymhlith clinigwyr ar draws y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo a hybu arfer da mewn perthynas â chodio clinigol. Ei fwriad yw cryfhau cynrychiolaeth glinigol ar y Grŵp Gwybodeg Glinigol i helpu i ganolbwyntio ar feysydd problemau. Un enghraifft yw endosgopi, lle mae nifer y cleifion yn uchel ac ansawdd y nodiadau'n wael.</p> <p>Yn ddiweddar fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd swydd Prif Swyddog Gwybodaeth Nyrsio ac roedd yn bwriadu penodi i'r swydd</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			yn ddiweddarach yn 2018. Bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio ar gymryd nodiadau a fydd yn ei dro o gymorth i sicrhau codio gwell.
b) atgyfnerthu'r pwysigrwydd o gwblhau crynodebau rhyddhau cleifion yn brydlon	Mawrth 2015	Ar y gweill	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod wrthi'n araf yn cyflwyno trefniadau rhyddhau cleifion electronig, er mai dim ond mewn nifer cyfyngedig o feysydd y mae ar gael o hyd. Dywedodd timau codio fod ansawdd yr wybodaeth a roddir i mewn i'r system, lle mae hyn ar waith, yn wael ar y cyfan.</p> <p>Ceir problem gylchol sy'n codi oherwydd meddygon iau sy'n dechrau yn eu swydd, sy'n golygu bod rhaid i'r safonau disgwylidig gael eu dysgu bob tro. Dynododd staff codio fod diweddariadau i'r system electronig yn gallu bod yn broblem hefyd.</p> <p>Dywedodd staff codio fod amseroldeb ac ansawdd crynodebau rhyddhau ysgrifenedig yn amrywiol a'u bod wedi gwaethygu dros amser. Er enghraifft, maent yn aml yn annarllenadwy neu'n wag.</p>
c) gwella ymgysylltu clinigol â'r broses o ddilysu data clinigol wedi'i godio	Mawrth 2015	Ar y gweill	Ychydig o dystiolaeth benodol oedd o ymgysylltu clinigol â'r broses o ddilysu data clinigol wedi'i godio.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 2

Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd

Cafwyd ymatebion oddi wrth 20 aelod o'r bwrdd yn y Bwrdd Iechyd.
Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

Arddangosyn 6: cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

	Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?		Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Cwbl fodlon	-	6	-	5
Bodlon	5	34	3	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	12	46	16	46
Anfodlon	3	10	1	4
Cwbl anfodlon	-	-	-	1
Cyfanswm	20	96	20	96

Arddangosyn 7: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gadernid codio clinigol

	Pa mor ymwybodol ydych chi o'r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ymwybyddiaeth lawn	5	26
Peth ymwybyddiaeth	13	50
Ymwybyddiaeth gyfyngedig	1	17
Dim ymwybyddiaeth	1	3
Cyfanswm	20	96

Arddangosyn 8: Iefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

	Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol?		Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ydw	3	8	18	77
Nac ydw	15	84	2	19
Cyfanswm	18	92	20	96

Arddangosyn 9: Sylwadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr o'r Bwrdd Iechyd

- Nid yw ein gwaith codio clinigol mor amserol ag y buont yn flaenorol, ac mae'n ymddangos bod yr adran godio dan bwysau. Heb godio amserol, cywir gyda digon o ddyfnder codio mae'n anodd dehongli gwybodaeth mewn amser real, yn enwedig gwybodaeth wedi'i meincnodi.
- Mae angen proffil uwch a pherchnogaeth arno o fewn y sefydliad.
- Ledled Cymru, rwy'n deall bod ein dull o ran codio mewn lle gwahanol i Loegr. Yn ôl fy nealltwriaeth i, mae hyn i'w briodoli o leiaf yn rhannol i'r ffaith bod gan godio yn Lloegr rôl fwy o lawer o ran ysgogi incwm ymddiriedolaethau. O ganlyniad, fe all fod llawer mwy o arian wedi cael ei fuddsoddi mewn codio gan gynnwys technoleg i gyflymu gwaith codio nag a fuddsoddiwyd yng Nghymru. Efallai ein bod mewn rhyw fath o gylch diefflig yn yr ystyr bod ôl-groniad o ran gwaith codio fel arfer sy'n lleihau ei effeithiolrwydd a'i ddefnyddioldeb i glinigwyr yn fawr felly mae llai o sylw'n cael ei roi i'r wybodaeth wedi'i chodio a gynhyrchir. Mae'n debyg i'r syniad o bwysio dim ond yr hyn yr ydych yn ei werthfawrogi.
- Nid wyf yn cofio sylw'n cael ei roi i godio clinigol mewn unrhyw gyfarfod. Yn amlwg, mae'n tanategu'r holl adroddiadau ar berfformiad, felly mae'n ymhlyg, ond nid wyf yn credu ei fod wedi cael ei drafod felly nid wyf yn gallu ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn.
- Fel adroddiad diweddaraf yr Is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrwydd Perfformiad, gwyddom yn union ble'r ydym o ran codio clinigol ac ansawdd a chyda maint y llwyth gwaith, mae arnom angen rhagor o fuddsoddiad – yn rhan gyntaf y broses i hyfforddi ein clinigwyr i godio wrth y ffynhonnell ac yn rhan olaf y broses am bod codio amserol ac o ansawdd da'n achub bywydau, ac nid gorddweud yw'r pwynt diwethaf hwnnw.
- Rydym wedi rhoi ystyriaeth yn ddiweddar i'r angen am fuddsoddiad pellach mewn codio clinigol; fodd bynnag, o gofio'r heriau ariannol mae'r dewisiadau ynglŷn â buddsoddi'n ei gwneud yn anodd blaenoriaethu codio clinigol uwchlaw darparu gwasanaethau clinigol.
- Mae codio clinigol yn galw am fuddsoddi mewn technoleg i gynyddu ei gynhyrchiant i'r eithaf.

- Mae'n amlwg bod problem gyda capasiti codio clinigol er mwyn i ni fod yn gwbl gyfoes drwy'r amser. Rwy'n credu mai'r broblem fawr i'r Bwrdd yw sut i flaenoriaethu'r buddsoddiad y gallwn ei wneud yn erbyn ein holl flaenoriaethau pan ydym yn y sefyllfa ariannol yr ydym ynddi. Fy asesiad i yw ein bod yn 'ddigon da' lle mae codio yn y cwestiwn, yn enwedig wrth edrych ar y sefyllfa ledled Cymru, ond fel gyda phopeth, mae wastad lle i wella.
- Mewn byd delfrydol byddem yn buddsoddi mwy mewn codio clinigol nag ydym yn ei wneud ar hyn o bryd; fodd bynnag, rydym wedi'n gorlethu gan heriau fel yr ydym wedi gweld yn Case for Change gan TCS a bydd y flaenoriaeth hon mewn cystadleuaeth â nifer o flaenoriaethau eraill. Felly, rhaid cynnwys gwelliannau yn ein strategaeth glinigol wrth edrych tua'r dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru